

DOGFEN GANLLAW TAW

Gwasanaethau Ariannol
Rhagfyr 2025



Cynnwys

1	Diben y Ddogfen Ganllaw	3
2	Cyflwyniad	4
3	Categoriâu TAW a Chodio TAW	5
4	Anfonebau TAW	7
	4.1 – Anfoneb TAW Safonol.....	7
	4.2 – Anfoneb TAW Syml	7
5	Amser Cyflenwi - Pwynt Treth	8
6	Cywiro Gwallau TAW	9
7	Materion TAW Penodol	10
	7.1 – Cyflenwadau a Wneir Rhwng Cyrff Adran 33	10
	7.2 – Ysgolion	10
	7.3 – Dewis Trethu	10
	7.4 – Nawdd a Rhoddion	11
	7.5 – Tâl Gwrthdro Domestig ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu	11
	7.6 – Terfynau Amser.....	11
	7.7 – Cyhoeddi Anfonebau TAW Di-fusnes	12
	7.8 – Mewnforion ac Allforion	12
	7.9 – Cadw Cofnodion	12
	7.10 – Anfonebau Treth Anghywir	12
	7.11 – Anfonebau Pro Fforma	12
8	Casgliad.....	13

1 - Diben y Ddogfen Ganllaw

Lluniwyd y Canllaw hwn er mwyn cynorthwyo staff a rhoi amlinelliad sylfaenol o'r agweddau ar Dreth ar Werth ("TAW", a elwir hefyd yn "Dreth") sy'n effeithio ar awdurdodau lleol. Nid yw'n ganllaw hollgynhwysol i TAW, a all weithiau fod yn gymhleth iawn. Ni all yr un canllaw drafod pob trafodyn posibl a allai gael ei gyflawni gan y Cyngor, na datgan y gyfraith mewn modd terfynol ychwaith - mater i dribiwnlysoedd a'r llysoedd yw hynny. Fodd bynnag, dylai roi digon o arweiniad ar rai pynciau allweddol a thynnu sylw at eraill lle gellid bod angen cyngor pellach. Gellir cyfeirio at eitem fel un sy'n 'Drethadwy' neu sy'n 'denu TAW' - mae ystyr y naill a'r llall yr un peth.

Os oes gennych unrhyw senarios nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon neu unrhyw amgylchiadau penodol yr hoffech eu trafod ymhellach, cysylltwch â'ch fîm cyfrifyddu i ddechrau, neu os oes angen cyngor ychwanegol, cysylltwch â'r swyddogion TAW canlynol:

Alison Greene – Rheolwr TAW a Dirprwyaethau - 01267 224133

Argreene@sirgar.gov.uk

Gareth R Davies – Rheolwr Cyllid – Corfforaethol – 01267 224137

Grdavies@sirgar.gov.uk

2 - Cyflwyniad

Diben y canllaw hwn yw egluro egwyddorion sylfaenol TAW ac yna'r rheolau sylfaenol.

Treth ar gyflenwi nwyddau a gwasanaethau yw Treth Ar Werth (TAW). Caiff y dreth ei gweinyddu yn y DU gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Gelwir TAW a godir ar bryniannau yn dreth "wrth brynu" ac fel arfer caiff ei hadennill gan CThEF. Gelwir TAW a godir ar Werthiannau/Incwm yn dreth "wrth werthu" ac fe'i telir i CThEF. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dreth yr ydym yn ei thalu a'r dreth yr ydym yn ei hawlio yn ôl yn cynrychioli'r dreth net sy'n daladwy ar y gwerth a ychwanegir gan ein gweithrediadau busnes.

Cyflwynir ffurflen TAW fisol i CThEF ar-lein.

Mae CThEF yn gorfodi cydymffurfiaeth â rheoliadau TAW sy'n cynnal archwiliad treigl parhaus o reolaeth y Cyngor dros TAW. Gall cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfio fod yn ddifrifol iawn. Fel arfer, bydd CThEF yn codi llog ar wallau TAW a gall godi dirwyon o hyd at 100% o unrhyw wallau TAW a wneir gan y Cyngor. Rhaid i bob un ohonom felly sicrhau ein bod yn cymhwyso'r rheolau TAW yn gywir i'n hincwm a'n gwariant.

Mae TAW yn aml yn bwnc cymhleth, felly os oes gennych unrhyw amheuaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i ymdrin â TAW, cysylltwch â'r swyddogion a restrir ar Dudalen 3.


Ni ddylai staff Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) gysylltu'n uniongyrchol â CThEF gydag ymholiadau am TAW. Mae'n bosib na fydd Canolfan Alwadau Genedlaethol CThEF yn gyfarwydd â Rheolau Arbennig Awdurdodau Lleol nac unrhyw gytundebau TAW penodol rhwng CSC a'u harolygwyr TAW.

Er bod rhai o'r canllawiau'n berthnasol yn gyffredinol, mae llawer ohonynt yn benodol i awdurdodau lleol. Ni ddylid defnyddio'r nodiadau i roi cyngor i bersonau na sefydliadau eraill oherwydd gallai'r rheiny fod yn ddarostyngedig i gyfundrefnau TAW gwahanol. Nid yw CSC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am wallau na cholledion sy'n deillio o gamddefnyddio'r canllawiau.

Mae CSC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, Rhif cofrestru (GB)**655 6026 33**. Mae'r cofrestrriad TAW hwn yn cwmpasu holl weithgareddau CSC, gan gynnwys ysgolion.

3 - Categoriâu TAW a Chodio TAW

Rhaid aseinio pob trafodyn i un o'r categorïau TAW canlynol:



Y Rheol Gyffredinol

Gan mai treth ar drafodion yw TAW, mae angen ystyried amgylchiadau unigol yn ôl eu ffeithiau. Ond y rheol gyffredinol yw, lle bo corff cyhoeddus yn cael ei ariannu drwy wariant cyhoeddus (fel grant) i wneud rhywbeth er budd y cyhoedd, mae'n annhebygol y bydd yn ymwneud â gweithgareddau busnes i ddibenion TAW. Mae gweithgareddau o'r fath y tu hwnt i gwmpas TAW.

Fodd bynnag, lle bo corff cyhoeddus sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW fel Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau am ystyriaeth a thrwy gyfrwng busnes, bydd gweithgareddau o'r fath o fewn cwmpas TAW. Mae ystyr eang i'r term 'busnes' i ddibenion TAW.

Yn ogystal â'r dreth wrth brynu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes, mae Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994 yn cynnwys darpariaeth y gall cyrff penodol, sef cyrff llywodraeth leol yn bennaf, hawlio ad-daliadau o'r TAW a godir arnynt ar gyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar gyfer eu gweithgareddau di-fusnes.

Yn ogystal â hynny, fel corff Adran 33, gallwn adennill treth wrth brynu esempt cysylltiedig o dan ddarpariaeth 'esemptiad rhannol' arbennig.

Gwerthiannau / Incwm

Mae nifer o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol y tu hwnt i gwmpas TAW h.y. Nid yw TAW yn daladwy ar wasanaethau a ddarperir o dan "gyfundrefn gyfreithiol arbennig" neu "weithgaredd statudol" ac nad ydynt mewn cystadleuaeth â'r sector preifat.

Dylid ystyried gwasanaethau a gwerthiannau eraill yn rhai safonol onid yw'n amlwg eu bod yn perthyn i gategori arall. Dylid codio incwm a chyhoeddi anfonebau Dyledwyr drwy ddefnyddio'r dangosyddion TAW canlynol (**Codau Treth a ddefnyddir o fewn Unit4 ERP (Agresso)**):

- a. Trethadwy
 - S** (i) Cyfradd safonol ar 20%
 - Z1** (ii) Cyfradd sero - trethadwy ar 0%
 - RE** (iii) Cyfradd Ostyngol / Is 5%
- b. Esempt
 - X** heb ddenu treth am eu bod am eu bod yn esempt drwy ddeddfwriaeth (amodau llym i'w bodloni i ddefnyddio hwn)
- c. Di-fusnes
 - N** heb fod yn drethadwy gan nad yw'n cael ei ystyried yn weithgaredd busnes gan CThEF (y tu hwnt i'r cwmpas)

Cyfrifoldeb y cyflenwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yw pennu'r gyfradd TAW ar gyfer pob trafodyn y mae'n ei gychwyn.

Dylid pwysleisio mai'r TAW rhagosodedig yw'r gyfradd safonol o 20% – mae popeth yn ddarostyngedig i TAW ar y gyfradd safonol oni ellir dangos rheswm pam ddim.

Pryniannau

Gall y Cyngor Sir adennill y rhan fwyaf o'r TAW a godir gan gyflenwyr ar eu hanfonebau. Fel arfer, anfonebau cyflenwyr yw'r canllaw gorau wrth godio gwariant a dylid eu prosesu drwy ddefnyddio'r dangosyddion TAW canlynol (**Codau Treth a ddefnyddir o fewn Unit4 ERP (Agresso)**):

- a. Trethadwy
 - V** (i) Cyfradd safonol ar 20%
 - Z** (ii) Cyfradd sero - trethadwy ar 0%
 - R** (iii) Cyfradd Ostyngol / Is 5%
- b. Esempt
 - E** heb fod yn drethadwy gan fod y trafodyn yn esempt drwy ddeddfwriaeth
- c. Di-fusnes
 - B/O** heb fod yn drethadwy yn rhinwedd peidio â chael ei ystyried yn weithgaredd busnes gan CThEF (y tu hwnt i'r cwmpas)

Er mwyn i'r cyngor ad-hawlio TAW ar daliadau unigol, mae'n ofynnol i'r cyngor o dan Reoliadau TAW gael anfoneb TAW **ddilys** ac arni enw'r cyflenwr, cyfeiriad a rhif cofrestru TAW, a rhaid i'r anfoneb fod wedi'i chyfeirio i Gyngor Sir Caerfyrddin neu un o'i Ysgolion. Ar gyfer trafodion o dan £250, gellir prosesu Anfoneb/Derbynneb Treth llai manwl ond rhaid iddi gynnwys enw'r cyflenwr a'r rhif cofrestru TAW. (Gweler Adran 4 isod.)

Dim ond ar bryniannau a archebir gan yr Awdurdod, ac y telir amdanynt gan yr Awdurdod. Ni ellir adennill treth wrth brynu ar bryniannau a wneir ar ran trydydd parti.

4 - Anfonebau TAW

Y sail ar gyfer y rhan fwyaf o waith cyfrifyddu TAW yw'r anfoneb TAW. Mae'n diffinio cyfradd a swm unrhyw TAW sy'n daladwy ac yn gosod y pwynt treth – y dyddiad y mae'r dreth yn gyfrifadwy i CThEF. Yn bwysig, dyma'r dystiolaeth sy'n hanfodol fel arfer i gefnogi unrhyw hawliad gan y derbynnydd i adennill treth wrth brynu. Sylwch na chaniateir dogfennau o'r enw 'pro fforma' nac 'anfoneb pro fforma' fel anfonebau TAW, ac na wneir taliadau o'r dogfennau hyn.

4.1 – Anfoneb TAW Safonol

Rhaid cyhoeddi anfoneb TAW lawn ar gyfer trafodion trethadwy rhwng personau cofrestredig am werthoedd uwchlaw £250. Ar gyfer trafodion o werth islaw £250, gellir darparu anfoneb symlach (gweler isod). Mae'n ofynnol i'r anfoneb TAW ddangos y manylion canlynol:

- a) Enw, cyfeiriad a rhif cofrestru TAW y cyflenwr
- b) Rhif adnabod – rhif anfoneb
- c) Amser cyflenwi (pwynt treth).
- d) Dyddiad cyhoeddi.
- e) Enw'r cwsmer, cyfeiriad.
- f) Disgrifiad o'r cyflenwad.
- g) Cyfradd TAW.
- h) Y pris fesul eitem heb gynnwys TAW a'r nifer o bob eitem.
- i) Gwerthoedd Net, TAW a Gros mewn GBP (£) neu'r arian cyfred priodol os nad yw'n GBP.
- j) Unrhyw ostyngiadau a gynigir.
- k) Os yw'r anfoneb mewn arian tramor, y gyfradd gyfnewid sterling.
- l) Rhaid i anfonebau trawsffiniol ddangos rhif cofrestru TAW cwsmeriaid (UE yn unig).
- m) Gall cyflenwadau cymysg gynnwys cydrannau sy'n denu gwahanol gyfraddau TAW. Bydd angen dangos y rhwymedigaeth TAW ar gyfer pob cydran.

4.2 – Anfoneb TAW Syml

Ar gyfer gwerthoedd o dan £250 a anfonebir, nid oes angen anfoneb lawn bob amser, ond gall cwsmeriaid busnes ofyn am anfoneb TAW lawn os oes angen. Rhaid i anfoneb dreth symlach gynnwys y canlynol:

- a) Enw, cyfeiriad a rhif cofrestru TAW y cyflenwr.
- b) Rhif yr Anfoneb.
- c) Yr amser cyflenwi (pwynt treth).
- d) Disgrifiad sy'n ddigonol i adnabod y nwyddau neu'r gwasanaethau.
- e) Y gyfradd TAW a godir fesul eitem.
- f) Y cyfanswm sy'n daladwy, gan gynnwys y gyfradd TAW.
- g) Ar gyfer pob cyfradd TAW sy'n daladwy, y swm gros sy'n daladwy gan gynnwys TAW, a'r gyfradd TAW sy'n berthnasol.

5 – Amser Cyflenwi – Pwynt Treth

Mae'r "Pwynt Treth" yn pennu pryd mae TAW yn ddyledus. Ei bwrpas arferol yw pennu'r Ffurflen TAW y dylid datgan y TAW arni, ond ar adeg pan fydd y gyfradd TAW yn newid mae'r "Pwynt Treth" yn hanfodol er mwyn pennu'r gyfradd gywir o TAW.

Ceir tri digwyddiad arwyddocaol wrth greu *Pwynt Treth*:

- i. Y pwynt treth sylfaenol. Dyma naill ai'r dyddiad pan gafodd y nwyddau eu danfon NEU'R dyddiad pan gwblhawyd y gwasanaeth
- ii. Dyddiad cyhoeddi anfoneb dreth
- iii. Dyddiad derbyn taliad

I raddau helaeth, y *Pwynt Treth* yw pa un bynnag o'r tri digwyddiad hyn fydd yn dod gyntaf. Dyma esemptiadau i'r rheol sylfaenol hon:

- a) Ar yr amod bod anfoneb yn ôl ii) yn cael ei chyhoeddi o fewn 2 fis i'r digwyddiad sylfaenol yn i), bydd y *Pwynt Treth* yn symud i ddyddiad yr anfoneb. OND os eir heibio'r cyfnod hwn bydd y *Pwynt Treth* yn dychwelyd i i) y digwyddiad sylfaenol
- b) Pan nad yw gwasanaeth wedi'i gwblhau ond o natur barhaus, a elwir yn aml yn "Gyflenwad Parhaus o Wasanaethau", nid yw eitem i) yn bodoli felly dyddiad yr anfoneb yw'r *Pwynt Treth* p'run bynnag (oni wneir taliad ymlaen llaw yn unol â iii)

Bydd yn amlwg o'r uchod, yn y rhan fwyaf o achosion, fod y *Pwynt Treth* yn cael ei greu, ac y bydd TAW felly'n daladwy i CThEF cyn i'r cwsmer wneud y taliad ei hun.

6 – Cywiro Gwallau TAW

Gall gwallau godi gan fod gwerth nwyddau neu wasanaethau wedi'i nodi'n anghywir ar yr anfoneb, bod y rhwymedigaeth TAW anghywir wedi'i gymhwyso, neu fod y cyfrifiadau'n anghywir. Dylid cysylltu â'ch tîm cyfrifyddu neu'r swyddogion TAW (tudalen 3) **ym mhob achos** lle nodir gwallau, er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif amdanynt yn gywir drwy ddefnyddio'r broses cywiro gwallau. (e.e. Os oes angen ichi gynyddu'r TAW, dylid cyhoeddi anfoneb atodol am y swm ychwanegol).

Mae llog a chosbau yn daladwy ar gamddatganiadau ar ffurflenni TAW. Gellir osgoi'r cosbau, ac weithiau'r llog, drwy wneud datgeliad gwirfoddol i CThEF. Rhaid i'r datgeliad nodi'r cyfnodau cyfrifyddu TAW y gwnaed y gwallau ynddynt yn wreiddiol.

Mae'r Awdurdod yn cadw Cyfrifon Addasu TAW ar wahân lle caiff gwallau eu cofnodi o dan y mis a'r flwyddyn y gwnaethant ddigwydd. Rhaid cyfeirio gwallau cyfrifyddu TAW cyn gynted â phosibl i sylw eich Tîm Cyfrifyddu.

Dylid esbonio'r rheswm dros y gwall wrth y Tîm Cyfrifyddiaeth, ynghyd â swm y TAW sydd wedi'i dan-gofnodi neu'i or-gofnodi a'r dyddiad pan ddigwyddodd y gwall, a bydd y Tîm yn gwneud yr addasiadau cyfrifyddu angenrheidiol. Bydd hefyd yn cysylltu â'r swyddogion TAW.

7 –Materion TAW Penodol

7.1 Cyflenwadau a wneir rhwng cyrff Adran 33 / Awdurdodau Lleol / Bwrdd Iechyd Lleol

Nwyddau a Gyflenwir

Rhaid trin pob cyflenwad o nwyddau fel cyflenwadau busnes ac maent yn drethadwy o dan y rheolau arferol.

Gwasanaethau a Gyflenwir

Fel arfer, bydd gwasanaethau a gyflenwir i adrannau eraill y Llywodraeth, ac eithrio rhai aelodau o staff a gyflenwir, fel arfer yn drethadwy.

Caiff gwasanaethau a gyflenwir rhwng awdurdodau eu rheoli drwy'r rheolau canlynol:

- Nid yw cyflenwadau a wneir o dan rwymedigaeth statudol (cyfundrefn gyfreithiol arbennig) ac nad ydynt mewn cystadleuaeth â'r sector preifat (heb arwain at ystumio cystadleuaeth) yn gyflenwadau di-fusnes ac maent y tu hwnt i gwmpas TAW.
- Mae unrhyw wasanaethau a gyflenwir mewn cystadleuaeth â'r sector preifat, p'un a ydynt yn cael eu cyflenwi drwy rwymedigaeth statudol ai peidio, yn gyflenwadau busnes, ac yn ddarostyngedig i'r gyfradd briodol o TAW.
- Effaith y rheolau yw bod bron pob gwasanaeth a gyflenwir i awdurdodau eraill yn cael ei ystyried yn drafodyn busnes, ac yn ddarostyngedig i TAW.

7.2 – Ysgolion

Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi'u cynnwys yng nghofrestriad TAW Cyngor Sir Gaerfyrddin. Caiff unrhyw drafodion rhwng y Cyngor a'r ysgolion eu dosbarthu'n rhai mewnol, gan olygu eu bod 'y tu hwnt i gwmpas' TAW, yn yr un modd â chyflenwadau rhwng ysgolion Sir Gaerfyrddin.

7.3 Gwerthu / Rhentu Tir ac Eiddo / Dewis Trethu

Mae'r rhan fwyaf o werthiannau a rhenti tir ac eiddo wedi'u hesemptio o TAW ond mae darpariaeth mewn cyfraith TAW i drin cyflenwadau tir ac eiddo sydd fel arfer wedi'u hesemptio fel rhai trethadwy yn ôl dewis y cyflenwr. Rhaid gwneud dewis trethu mewn perthynas â thir ac adeiladau penodol, hysbysu CThEF am hynny, a bydd yn weithredol am isafswm o 20 mlynedd.

Dylid gwirio unrhyw gynigion i brydlesu neu werthu neu ddewis trethu unrhyw dir neu eiddo Awdurdod gyda'r swyddogion TAW i weld a oes dewis i drethu.

Pan fydd yr awdurdod yn prynu tir neu eiddo, dylid cynnal trafodaethau â'r swyddogion TAW i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac ati, ac a oes angen dewis trethu.

Efallai y bydd yn ymddangos yn anarferol y dylid cael dewis o ran treth, ond ar gyfer trafodion sy'n cynnwys gwerthu, prydlesu, rhentu neu osod eiddo, gan gynnwys trwydded i feddiannu, caiff y cyflenwr/landlord ddewis troi'r Esemptiad TAW naturiol yn TAW cyfradd safonol drwy 'ddewis trethu'. Pwrpas gwneud hyn yw cael gwared ag incwm Esempt (ynghyd â photensial hynny i gyfyngu ar y gallu i adennill yn llawn y TAW a achoswyd wrth wario) a'i gyfnewid am incwm sy'n ddarostyngedig i TAW ar y gyfradd safonol, gan greu trosiant trethadwy yn sgil hynny. Dim ond swyddogion TAW (tudalen 3) ar y cyd â'r deiliad cyllideb perthnasol a all gyflawni'r Dewis ac mae angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol, drwy ddefnyddio ffurflenni penodedig, i uned arbenigol o fewn CThEF.

Cedwir rhestr o eiddo Cyngor Sir Caerfyrddin a Ddewiswyd eu Trethu gan y swyddogion TAW.

7.4 – Nawdd a Rhoddion

Mae Rhoddion uniongyrchol syml i'r Awdurdod y tu hwnt i gwmpas TAW ac nid oes unrhyw rwymedigaethau TAW yn gysylltiedig â'r rhain. Mae hyn yn berthnasol i roddion ariannol yn ogystal â chyfarpar a roddir.

Byddai rhoddion sy'n gysylltiedig ag unrhyw fudd cilyddol i'r rhoddwr fel hysbysebion, cyhoeddusrwydd neu ddefnydd o gyfarpar yn cael eu hystyried yn incwm nawdd ac felly'n cael eu hystyried yn daliad trethadwy am wasanaethau a gyflenwir gan yr Awdurdod, a byddai TAW ar y gyfradd safonol yn daladwy.

Fodd bynnag, gellir ystyried bod incwm nawdd y tu hwnt i gwmpas TAW ar yr amod bod y noddwr yn cael y budd lleiaf neu ddim budd o gwbl, e.e. cynnwys ei enw'n gynnwl ar restr i gydnabod cymorth yn unig.

7.5 – Tâl Gwrthdro Domestig ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu

O dan delerau darpariaethau'r Tâl Gwrthdro Domestig; fel y'i cyflwynwyd yng Ngorchymyn Treth Ar Werth (adran 55A) (Gwasanaethau Penodedig a Chyflenwadau Esempt) 2019; credwn y bydd y rhan fwyaf o'r cyflenwadau a wneir yn gysylltiedig â gwaith ar ein heiddo neu dir, ac felly CSC fydd y defnyddiwr terfynol bob amser. Mae hynny wedyn yn golygu na fyddai'r 'tâl gwrthdro' yn berthnasol a'n bod yn parhau fel yr ydym wedi bod yn ei wneud o ran cynnwys TAW ar yr anfonebau a dderbyniwn.

Mae angen hysbysu cyflenwyr a chontractwyr mai ni yw'r defnyddiwr terfynol ac y dylent barhau i anfonebu CSC gan gynnwys TAW am waith o fewn cwmpas cynllun Treth y Diwydiant Adeiladu.

Fodd bynnag, os ydych chi'n credu bod senario lle nad CSC yw'r defnyddiwr terfynol, cysylltwch â'r swyddogion TAW i drafod ymhellach.

7.6 – Terfynau Amser

Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2010, y terfyn amser ar gyfer TAW yw 4 blynedd. Mae hyn yn berthnasol i bawb – ni all yr arolygwyr TAW asesu gwallau sydd dros 4 blwydd oed, ac ni all y corff sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW, fel Cyngor Sir Caerfyrddin, ond addasu TAW 4 blynedd o ddyddiad yr anfoneb/hepgoriad/digwyddiad arall. Mae unrhyw TAW cynharach, boed yn ddyledus i CThEF neu gan CThEF, y tu hwnt i'r terfyn amser, ac wedi'i cholli am byth.

7.7 Cyhoeddi Anfonebau TAW Di-fusnes

Mae rhai o'r gweithgareddau di-fusnes/y tu hwnt i'r cwmpas sydd yn fwyaf cyffredin yn cynnwys anfonebau dyledwyr a godir i'r dibenion canlynol:

- Incwm a dderbynnir heb gyflenwad h.y. lle na ddarperir dim yn gyfnewid am y cyllid:
 - i. cyllid grant
 - ii. rhoddion
- Adennill arian yn gysylltiedig â'r gyflogres yn sgil gordalu cyflogau.
- Cyflenwadau penodol o staff (secondiadau) - lle bo'r secondiad yn cydymffurfio â Hysbysiad TAW 700/34 Staff adran 2.2 –
 - i. 'Secondiadau rhwng a chan adrannau'r llywodraeth lle mae angen gwybodaeth arbenigol na ellir ei chael o'r sector preifat'
 - ii. 'Rhai secondiadau rhwng awdurdodau lleol a chan awdurdodau lleol lle mae ganddynt rwymedigaeth statudol neu fonopoli'

Gall gwybod pryd i godi TAW am secondiadau staff fod yn gymhleth. Cysylltwch â'r swyddogion TAW ar dudalen 3 os oes gennych y senarios hyn.

7.8 – Mewnforion ac Allforion

Os bydd y sefyllfa hon yn codi, cysylltwch â'r swyddogion TAW ar dudalen 3.

7.9 – Cadw Cofnodion

Fel arfer, rhaid cadw cofnodion busnes yn ddiogel ac mewn trefn dda am 6 blynedd ariannol gyflawn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- archebion a nodynnau dosbarthu
- gohebiaeth busnes berthnasol
- anfonebau prynu gan gyflenwyr
- nodynnau credyd
- cofnodion arian parod a rholiau til
- anfonebau a godir gan y cyngor
- cyfriflenni banc a slipiau talu i mewn
- cyfrifon blynyddol

7.10 – Anfonebau Treth Anghywir

Os na fydd cyflenwr yn darparu anfoneb dreth gywir, dylid ei dychwelyd iddo ei hailgyhoeddi. Ac eithrio wrth dderbyn gostyngiadau cytunedig am dalu'n brydlon, ni cheir newid y pris ar yr anfoneb cyn codi TAW mewn unrhyw sefyllfa. Ni cheir newid swm y TAW mewn unrhyw sefyllfa.

7.11 – Anfonebau Pro Fforma

Weithiau bydd y cyflenwr yn cyhoeddi anfoneb 'pro fforma'. Bydd hyn naill ai'n hepgor TAW neu, yn fwy cyffredin, yn cynnwys datganiad 'nid anfoneb dreth yw hon'. Ni ellir adennill TAW ar y dogfennau hyn, a dylai holl gyfanswm yr anfoneb gael ei godio i'r Gwasanaeth. Dylid wedyn hawlio TAW a'i haddasu ar ôl derbyn anfoneb TAW briodol.

8 - Casgliad

Ceir rheolau TAW sydd wedi'u hen sefydlu ar draws yr Awdurdod; fodd bynnag, gall y rheolau treth hyn newid oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth. Hefyd, gall newidiadau staff gael effaith ar brosesau sefydledig ac ati. Ymadrodd a glywir yn aml gan gynghorwyr TAW o gael eu herio â senario yw "mae'n dibynnu". Gan fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cymhwyso codau TAW yn gywir i anfonebau, dylech gysylltu â'r swyddogion a enwir ar dudalen 3 os oes unrhyw amheuan gennych.